

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y
gweithle a rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd

Chwefror 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Enterprise.learning.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y
gweithle a rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd

Chwefror 2011



Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Penodir y Pwyllgor Menter a Dysgu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion yn ymwneud â datblygu economaidd, trafnidiaeth, ac addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Yn benodol, caiff y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae ei bwerau wedi'u gosod allan yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-guidance.htm>

Aelodau'r Grŵp Rapporteur

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Gareth Jones (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Aberconwy
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
David Melding	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd

Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Gareth Jones (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Aberconwy
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Andrew Davies	Llafur	Gorllewin Abertawe
Paul Davies	Plaid Geidwadol Cymru	Preseli Sir Benfro
Nerys Evans	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Gibbons	Llafur	Aberafan
Darren Millar (o 7 Rhagfyr 2010)	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin Clwyd
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:

David Melding (tan 7 Rhagfyr 2010)	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
---------------------------------------	-----------------------	----------------

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cefndir yr ymchwiliad	9
Pwrpas yr ymchwiliad	9
Iaith Pawb	9
Mesur y Gymraeg (Cymru)	10
Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	11
Iaith fyw: Iaith byw - Strategaeth ar gyfer y Gymraeg	12
2. Heriau a Chyfleoedd	13
Hyder i siarad Cymraeg	13
Y gweithlu	13
Y defnyddiwr	15
Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus	16
Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	16
Hyfforddiant iaith Gymraeg	18
Dilyniant y Gymraeg o addysg i gyflogaeth	19
Rôl Cyngorau Sgiliau Sector	20
Terminoleg	22
Y galw am wasanaethau dwyieithog	22
Hybu gwasanaethau Cymraeg	24
Arwyddion dwyieithog yn y gweithle ac mewn busnesau	27
Rôl awdurdodau lleol	28
3. Casgliadau	29
Atodiad A – tystion, tystiolaeth a gweithgareddau	31
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	31
Llais Defnyddwyr Cymru	31
NatWest	31
CADCentre UK	31

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cydfynd â'r argymhellion:

Recommendation 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r ffactorau penodol sy'n effeithio ar hyder defnyddwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. (Tudalen 16)

Recommendation 2. Rydym yn argymhell y dylai sylwadau defnyddwyr yng Nghymru gael eu cyfleu i banel cynghori Comisiynydd y Gymraeg. (Tudalen 16)

Recommendation 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i werthuso canlyniadau ei Gynllun Ymchwil. Gyda'r dystiolaeth a gesglir o'r gwaith ymchwil hwn, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar y manteision masnachol a geir wrth ddefnyddio staff a chanddynt sgiliau siarad Cymraeg i sefydliadau rhyngwladol mawr a Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru. (Tudalen 17)

Recommendation 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth ariannol digonol drwy gynlluniau SkillBuild a Phrentisiaethau i ariannu rhaglenni megis Cynllun Cymraeg yn y Gwaith gan CADCentre. Rydym yn argymhell hefyd fod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i rannu arferion gorau a sicrhawyd drwy Gynllun Cymraeg yn y Gwaith gyda darparwyr hyfforddiant galwedigaethol eraill. (Tudalen 19)

Recommendation 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil pellach ac yn coladu data ar agweddau at y Gymraeg a'r defnydd ohoni ymysg pobl ifanc sy'n dechrau gweithio er mwyn cyfrannu at ddatblygu polisi. (Tudalen 19)

Recommendation 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid er mwyn sicrhau bod llwybr cydlynol ar

gael i hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer disgyblion ysgol sy'n dymuno defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. (Tudalen 20)

Recommendation 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darparwyr addysg, hyfforddiant a gweithleoedd yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn strategol er mwyn sicrhau bod pob cam yn y broses datblygu sgiliau yn cynnig dilyniant i unigolion a bod anghenion y gweithle yn cael eu bodloni. (Tudalen 20)

Recommendation 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yna gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pob Cyngor Sgiliau Sector yn glynu wrth y canllawiau arfer da wrth ddatblygu safonau iaith Gymraeg a bod y gwaith o weithredu'r safonau hyn a chanlyniadau hynny yn cael eu monitro'n gadarn a'u gwerthuso'n rheolaidd. (Tudalen 22)

Recommendation 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r manteision y mae sefydliadau ariannol wedi'u gweld wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'w cwsmeriaid, ac edrych ar ffyrdd y gellir hyrwyddo'r arfer da hwn ymhlith sefydliadau gwasanaeth cwsmeriaid eraill yn y sector preifat. (Tudalen 23)

Recommendation 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda busnesau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y galw oddi wrth ddefnyddwyr am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein a dros y ffôn, yn cael ei nodi a'i werthuso'n dda, ac er mwyn gweld a oes unrhyw beth yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau hynny. (Tudalen 24)

Recommendation 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â busnesau a defnyddwyr i ddatblygu canllawiau ar ddulliau arloesol o hybu'r Gymraeg yn y gweithle ac mewn busnesau, ac yn ceisio adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr ynghylch ei effeithiolrwydd. (Tudalen 24)

Recommendation 12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o hwb i ddefnyddio'r Gymraeg a'i manteision economaidd drwy gydol y gwaith o weithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi. (Tudalen 25)

Recommendation 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso llwyddiant bathodynau 'Iaith Gwaith' ac yn comisiynu ymchwil i ba mor ymarferol fyddai cyflwyno logo 'rhowch gynnig arni' mewn safleoedd busnesau sy'n gweithio wyneb yn wyneb â chwsmeriaid. Gellid ei ddefnyddio ochr yn ochr â logo cynllun 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg i annog cwsmeriaid heb hyder i ddefnyddio'r iaith. (Tudalen 25)

Recommendation 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r hyn sy'n deillio o ganllawiau 'Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog' ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da er mwyn datblygu'r Gymraeg ymhellach yn y gweithleoedd hynny a gyda sefydliadau eraill. (Tudalen 26)

Recommendation 15. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu rhwydwaith o fusnesau a chyrrff sector cyhoeddus yn cael ei defnyddio i rannu arferion da wrth ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn y gweithle. Rydym yn argymell hefyd bod gwaith y rhwydwaith hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd. (Tudalen 27)

Recommendation 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ddefnyddio arwyddion a llenyddiaeth ddwyieithog mewn gweithleoedd a busnesau gan gynnwys coladu data cywir ar ddefnyddio arwyddion a llenyddiaeth Gymraeg a hysbysu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg o dueddiadau ac enghreifftiau o arferion da. (Tudalen 28)

Recommendation 17. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid er mwyn sicrhau bod rheoliadau ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn cael eu gorfodi'n bendant fel bod y nifer leiaf o gyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn rhwydd. (Tudalen 29)

Recommendation 18. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn asesu canllawiau a gyhoeddir i Awdurdodau Addysg Lleol i ddatblygu Cynlluniau Addysg Gymraeg ar gyfer oedolion. (Tudalen 29)

Recommendation 19. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau addysg lleol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r data angenrheidiol, yn enwedig data ar enedigaethau, i

Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn mesur y galw am wasanaethau addysg yn y Gymraeg. (Tudalen 29)

Recommendation 20. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad yn cael eu hystyried wrth weithredu strategaeth yr iaith Gymraeg 'Iaith fyw: Iaith byw'. (Tudalen 30)

1. Cefndir yr ymchwiliad

Pwrpas yr ymchwiliad

1. Yn ein cyfarfod ar 15 Ionawr 2009, cafodd Grŵp Rapporteur trawsbleidiol ei ethol gan y Pwyllgor Menter a Dysgu i ystyried gwahanol agweddau ar ddwyieithrwydd yng Nghymru ac i adrodd ar ei ganfyddiadau. Roedd aelodau'r grŵp fel a ganlyn: Jeff Cuthbert AC; Gareth Jones AC; David Melding AC; a Jenny Randerson AC.
2. Bu'r Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd ('y Grŵp') yn trafod ei flaenoriaethau yn ei gyfarfod cyntaf anffurfiol ar 5 Chwefror 2009. Penderfynodd y byddai'n canolbwyntio ar y tri maes strategol canlynol:
 - dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith;
 - hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle; a
 - rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd.
3. Ym mis Medi 2010, cyhoeddasom adroddiad ar ddysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'r ail adroddiad hwn yn dod â'r ymchwiliad i ben drwy archwilio hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle a rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd.
4. Cynhaliodd y Grŵp gyfarfod anffurfiol ym mis Medi 2010 a chynnal ymweliadau ym mis Rhagfyr 2010. Mae rhestr o'r gweithgareddau y bu'r Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd yn ymgymryd â hwy i'w gweld yn Atodiad A.
5. Mae'r Grŵp yn ddiolchgar iawn i bawb a anfonodd wybodaeth ato am hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle a rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd, yn ogystal â'r bobl a neilltuodd amser i gwrdd â'r Grŵp yn bersonol - maent hwythau wedi'u rhestru yn Atodiad A.
6. Rydym wedi cyfeirio'r argymhellion yn ein hadroddiad i Lywodraeth Cymru, ond y Gweinidog fydd yn penderfynu a ddylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu Gomisiynydd y Gymraeg fynd ar drywydd y rhain.

Iaith Pawb

7. Bu'r Grŵp yn gweithio yng nghyd-destun Iaith Pawb, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith

Gymraeg,¹ a gyhoeddwyd yn 2003. Mae'r cynllun gweithredu'n nodi'r targedau allweddol canlynol, sydd i'w cyflawni erbyn 2011:

- bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigur a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001;
- bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg gan dros 70 y cant o'r boblogaeth yn cael ei atal;
- bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n cael addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd;
- ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mesur y Gymraeg (Cymru)

8. Pasiwyd Mesur y Gymraeg (Cymru)² gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 a'i nod yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol sy'n cael ei lywio'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaeth ynghylch statws swyddogol y Gymraeg ac mae'n sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg a fydd yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd o dan Ddeddf 1993.

9. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth iddo ef neu hi gyflawni'i swyddogaeth fydd hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd gan y Comisiynydd y pŵer i ymchwilio i ymyrraeth honedig â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd dan amgylchiadau penodol. Caiff y Comisiynydd ei gefnogi gan Banel Cynghori.

10. Gweinidogion Cymru fydd yn penodi Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg. Wrth benodi aelodau i'r Panel Cynghori, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r rheoliadau penodi a all wneud darpariaethau am yr wybodaeth a'r profiad y bydd yn rhaid i aelodau'r Panel feddu arnynt.

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru – Iaith Pawb: Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog

² Mesur y Gymraeg (Cymru) 2010

11. Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth ynghylch datblygu 'safonau' ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg a fydd yn disodli'n raddol y cynlluniau iaith Gymraeg presennol a ddaeth i rym yn sgil Ddeddf 1993. Er mai polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru yw peidio â gosod dyletswyddau ar y sector preifat, byddai'r Mesur yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod y safonau hyn ar gyrff sector preifat penodol, sef cwmnïau telathrebu, dŵr, trydan a nwy. Wrth i'n hadroddiad gael ei baratoi, roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2010 yn aros am gymeradwyaeth frenhinol.

Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg

12. Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg, sy'n amlinellu cyfeiriad strategol cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu Cymraeg. Yng nghyd-destun hyfforddiant galwedigaethol, mae rhai o'r prif amcanion strategol yn cynnwys y canlynol:

- cynyddu darpariaeth cyfrwng Gymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a dysgu a hyfforddiant seiliedig ar waith mewn partneriaeth drwy rwydweithiau ardal;
- cynllunio darpariaeth sy'n galluogi dilyniant ieithyddol o'r cam addysg statudol i'r camau ôl-16 ac ôl-19 gyda dewisiadau o gyrsiau sy'n cynnal ac yn cryfhau sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg;
- datblygu rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ôl-16 allu cynnal a gwella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg, er mwyn darparu dilyniant ieithyddol.³

13. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys amcanion strategol penodol sy'n gysylltiedig â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys:

- codi safonau wrth addysgu a dysgu Cymraeg i oedolion er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n gallu cyfrannu at eu cymunedau a'u gweithleoedd yn y Gymraeg;
- hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, a datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg yn y gweithle;

³ Llywodraeth Cymru, Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg, Ebrill 2010, tudalen 15

- disgwyliad y dylai addysg, cyngor a chyfarwyddwyd gyrfaoedd gydnabod a hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac astudio'r Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau neu hyfforddiant pellach ac yn y gweithle.

laith fyw: laith byw – Strategaeth ar gyfer y Gymraeg

14. Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar 'laith fyw: laith byw'⁴ sef strategaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

15. Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi, o ganlyniad i Fesur y Gymraeg, y bydd ystod y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg...

“...yn cael ei gyflawni drwy greu safonau a fydd yn rhoi dyletswyddau i sefydliadau o ran:

- darparu gwasanaethau yn y Gymraeg;
- ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle;
- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fwy eang;
- cadw cofnodion ynghylch cydymffurfio â safonau ac ynghylch cwynion .”⁵

16. Mae prif elfennau'r strategaeth yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad yr iaith ac sydd yn ei defnyddio;
- rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â mentrau sy'n ceisio magu hyder pobl a gwella eu rhuglder yn yr iaith;
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgîl bwysig mewn bywyd modern;
- Mentrau penodol ar draws Cymru er mwyn cryfhau'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

17. Mae'r strategaeth hefyd yn bwriadu canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ymysg plant a phobl ifanc, yn y gweithle ac mewn gwasanaethau i ddinasyddion. Wrth wneud hynny, bydd yn ceisio cryfhau'r seilwaith sy'n cefnogi defnydd o'r iaith.

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru – laith fyw: laith byw – Dogfen ymgynghori

⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru – laith fyw: laith byw – Dogfen ymgynghori – tudalen 5

2. Heriau a Chyfleoedd

Hyder i siarad Cymraeg

18. Fel ag yn ei ymchwiliad i ddysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith, clywodd y Grŵp fod diffyg hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mynegwyd y farn hon gan yr holl dystion a ddaeth gerbron y Grŵp.

19. Mae'r term "siaradwyr Cymraeg" yn cynnwys ystod eang o sgiliau ac anghenion ieithyddol, e.e. gall rhai unigolion sy'n gwbl rugl a hyderus yn siarad Cymraeg deimlo nad oes ganddynt hyder pan ddaw'n fater o ddrafftio gohebiaeth neu adroddiadau ffurfiol yn y Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) o'r farn bod y diffyg hyder hwn yn deillio o angen gwirioneddol i gryfhau sgiliau neu angen gwahanol i ymarfer a gweithredu eu sgiliau cudd.⁶

20. Tynnodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg sylw hefyd at ganlyniadau arolwg cynrychioladol a ganfu fod 82 y cant o bobl yng Nghymru yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i fod yn falch ohono ac roedd 76 y cant yn cytuno bod hysbysebion a marchnata dwyieithog yn ffactorau pwysig o ran gwneud i siaradwyr Cymraeg deimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith.

Y gweithlu

21. Nododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod:

"cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn allweddol i ymdrechion i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol."⁷

Aeth ymlaen i ddweud hefyd:

"Mae diwylliant busnes ym Mhrydain yn anarferol o uniaith, ac ychydig o fusnesau sydd â phrofiad o ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un iaith, neu mewn datblygu a rheoli systemau sy'n galluogi darparu gwasanaeth dwyieithog. Mae hyn yn wahanol i'r arfer rhyngwladol safonol gan fod mwy nag un iaith a ddefnyddir yn gyffredin yn y rhan fwyaf o wledydd."⁸

⁶ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 11

⁷ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 2

⁸ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 8

22. Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006, a chanfu fod 58 y cant o'r rheini a allai siarad Cymraeg yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg. O blith y siaradwyr Cymraeg rhugl hynny, dywedodd 87 y cant eu bod yn defnyddio'r iaith bob dydd. Canfu'r arolwg fod 73 y cant o weithwyr yn siarad Cymraeg gyda chyd-siaradwyr Cymraeg mewn gweithle lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn siarad Cymraeg. Dim ond 25 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg yn rheolaidd. Clywodd y Grŵp fod cysylltiad cadarnhaol cryf rhwng amllder siarad Cymraeg ac amllder ei hysgrifennu.⁹

23. Clywodd y Grŵp fod agweddau a barn yn chwarae rôl fawr yn y "ffactor hyder" o ran sicrhau bod yr iaith yn cael ei defnyddio mwy yn y gweithle. Mewn tystiolaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, nodwyd y dylid ystyried y canlynol yn ofalus er mwyn:

"Sicrhau dulliau clir a strategol o ddiffinio neu ddisgrifio'r mathau o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle [...]

"Sicrhau fod amrediad yr hyfforddiant sydd ar gael yn diwallu'r anghenion hyn [...]

"Sicrhau cyfathrebu effeithiol a strategol rhwng y byd addysg, darparwyr hyfforddiant a gweithleoedd, er mwyn sicrhau fod pob cam o'r broses datblygu sgiliau yn rhoi dilyniant i'r unigolyn ac yn cwrdd ag anghenion y gweithle [...]

"Yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru Ebrill 2010 ceir cyfeirio penodol at bwysigrwydd meithrin sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y gweithle. [...]

"Agweddau sefydliadol tuag at y Gymraeg [...]

"Agweddau cydweithwyr (a chwsmeriaid allanol) tuag at ddefnyddio'r Gymraeg: gweithwyr sydd yn wrthwynebus i'w defnydd, ag agweddau gweithwyr ar faterion megis cywirdeb ieithyddol."

24. Er bod lle amlwg i wella, clywodd y Grŵp fod arferion da yn cael eu rhoi ar waith gan fusnesau yng Nghymru. Ymwelodd y Grŵp â

⁹ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 13

Phencadlys y NatWest yng Nghaerdydd, sydd wedi rhoi polisi ar waith mewn canghennau ledled Cymru i annog aelodau'r staff sy'n siarad tipyn bach o Gymraeg i ddefnyddio'r iaith gyda chwsmeriaid yn fwy rheolaidd. Ers rhoi'r polisi hwn ar waith, maent wedi gweld bod llawer o gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg yn gwerthfawrogi staff sy'n gwneud ymdrech i siarad Cymraeg, beth bynnag yw eu lefel cyrhaeddiad.

25. Tynnodd NatWest sylw hefyd at bwysigrwydd yr iaith ar gyfer datblygu teyrngarwch brand gyda'i gwsmeriaid. Clywodd y Grŵp fod sgoriau gwasanaeth cwsmeriaid y banc yng Nghymru dros y blynnyddoedd diwethaf yn uwch nag yn unman arall yn y DU. Mae'n credu bod ei bolisi iaith Gymraeg yn elfen allweddol o'r ethos gwasanaeth cwsmeriaid safonol sy'n gysylltiedig â'r cyflawniad hwn. Yn sgil hyn, mae NatWest wedi creu rôl cysylltiadau cyfryngau yn benodol ar gyfer Cymru, sy'n gyfrifol am broffilio pob agwedd ar weithgareddau'r banc yng Nghymru ar fabwysiadu dull gwbl ddwyieithog o weithio.

Y defnyddiwr

26. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru¹⁰ tynnwyd sylw at ganfyddiadau ei arolwg 'Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r iaith Gymraeg'. Holwyd 759 o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru, a oedd yn amrywio o ran rhuglder, ynghylch defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a'u hagwedd tuag atynt.

27. Yn dilyn prif ganfyddiadau'r arolwg, canfuwyd bod hyder i siarad Cymraeg â sefydliadau sector cyhoeddus a sector preifat yn rhwystr mawr i ddefnyddwyr nad ydynt yn siarad fawr o Gymraeg. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru, nodwyd y canlynol:

“...understanding of confidence is vital to inform the future service development. The environment in which services are delivered doesn't seem to inspire confidence amongst users, especially those who don't speak Welsh.

“It's not just about delivering the right services, it's about helping businesses and organisations create a supportive culture for non fluent Welsh speakers. This step cannot be

¹⁰ Llais Defnyddwyr Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 2

taken without greater understanding of what confidence means to the people who lack it.”¹¹

28. Fel rhan o'r dasg o gasglu tystiolaeth, ymwelodd y Grŵp â CADCentre UK, sy'n ddarparwr hyfforddiant wedi'i gymeradwyo gan y llywodraeth mewn sawl sector diwydiannol gan gynnwys TGCh, AutoCAD (Dylunio drwy Gymorth Cyfrifiadur), Busnes a Gweinyddiaeth, Gwasanaeth Cwsmeriaid, a Pheirianeg a Gweithgynhyrchu. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan CADCentre UK, nodwyd y canlynol:

“Consumers are unaware of the ability of a company to respond to their queries in Welsh and therefore take the easiest and quickest option which is to communicate in English. This problem is exacerbated by the lack of a separate Welsh language telephone number or point of communication.”¹²

29. O'r dystiolaeth a gafodd y Grŵp, roedd yn glir bod defnyddwyr yn disgwyl gwasanaeth wyneb yn wyneb o safon, ni waeth pa iaith y maent yn ei siarad. Mae gan fusnesau rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â phroblemau ar gyfer siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn yr iaith os ydynt yn bwriadu cefnogi ac annog defnyddwyr i fod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r ffactorau penodol sy'n effeithio ar hyder defnyddwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Rydym yn argymhell y dylai sylwadau defnyddwyr yng Nghymru gael eu cyfleu i banel cynghori Comisiynydd y Gymraeg.

Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

30. Clywodd y Grŵp dystiolaeth nad oedd gan lawer o gyflogwyr ddull cydnabyddedig o asesu a datblygu sgiliau Cymraeg fel rhan o recriwtio staff neu ddatblygiad proffesiynol parhaus eu staff. Mewn ymchwil a

¹¹ Llais Defnyddwyr Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 4

¹² CADCentre UK – tystiolaeth ysgrifenedig – 1 Rhagfyr 2010 – tudalen 7

gynhaliwyd yn 2005 ar gyfer Sgiliau Dyfodol Cymru, edrychwyd ar dros 2000 o gyflogwyr mewn saith sector busnes a chanfuwyd y canlynol:

“Dim ond 2 y cant o’r busnesau oedd ag angen sgiliau iaith Gymraeg sydd â dull ffurfiol o ganfod anghenion eu staff presennol o ran sgiliau a hyfforddiant iaith Gymraeg.

“Mae busnesau Cymru yn tueddu i edrych ar y gallu i siarad, darllen, neu ysgrifennu Cymraeg nid yn gymaint fel sgil ond fel nodwedd sy’n digwydd ohoni ei hun yn naturiol.”¹³

31. Clywodd y Grŵp fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi gweinyddu ‘Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog’ er mwyn rhoi cymorth ariannol ac ymarferol i gyrff cyhoeddus ar gyfer prosiectau peilot i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol i ddatblygu Cymraeg yn y gweithle ac, yn 2009/2010, cefnogwyd ceisiadau gan naw sefydliad.

32. Mynegwyd barn debyg gan Llais Defnyddwyr Cymru, a ddywedodd nad oedd rhai sefydliadau yn ymwybodol o’r sgiliau ieithyddol a oedd ar gael ymhlith eu gweithlu ac nad oedd y sgiliau hynny yn cael eu defnyddio i’w llawn botensial.

33. Clywodd y Grŵp fod angen strategaethau clir a chydlynol ar gyfer coladu a lledaenu gwybodaeth am yrfaeodd lle mae’n ofynnol cael sgiliau Cymraeg. Byddai hyn yn golygu marchnata Cymraeg fel sgil sy’n gysylltiedig â gwaith i gyflogwyr ac i ddisgyblion mewn addysg uwchradd.

34. Clywodd y Grŵp fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg,¹⁴ mewn ymgais i ddeall mwy am y ffactorau sy’n dylanwadu ar y Gymraeg yn y gweithle, yn gweithredu Cynllun Ymchwil sy’n rhoi sylw penodol i sgiliau iaith a sut mae’r sgiliau hynny’n cael eu rhoi ar waith.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i werthuso canlyniadau ei Gynllun Ymchwil. Gyda’r dystiolaeth a gesglir o’r gwaith ymchwil hwn, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar y manteision masnachol a geir wrth ddefnyddio staff a chanddynt sgiliau siarad Cymraeg i sefydliadau rhyngwladol mawr a Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru.

¹³ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 10

¹⁴ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – Medi 2010 – tudalen 15

Hyfforddiant iaith Gymraeg

35. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, dywedwyd bod hyfforddiant galwedigaethol yn y Gymraeg yn gryn dipyn o her i gyflogwyr a gweithwyr. Mae'n argymhell y dylid cael ymgyrch amlgyfrwng gydlynus ar raddfa genedlaethol sy'n pwysleisio bod cymhwysedd yn y Gymraeg yn sgîl er mwyn codi statws y Gymraeg.¹⁵

36. Ym mholisi iaith NatWest,¹⁶ nodwyd y canlynol:

“NatWest recognises its role in the training and development of staff and encourages them to exercise and improve their fluency in Welsh.”

37. Yn ystod ei ymweliad â NatWest, clywodd y Grŵp fod llawer o'i staff a oedd yn dysgu Cymraeg yn gwneud hynny yn ystod eu hamser cinio ac ar ôl gwaith.

38. Yn ystod ei ymweliad â CADCentre UK, cyfarfu'r Grŵp â chyflogwyr a dysgwyr a oedd yn cael addysg a sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy amrywiol raglenni.

39. Clywodd y Grŵp fod CADCentre UK wedi gweithredu Cynllun 'Cymraeg yn y Gwaith' sy'n hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgîl yn y gweithle ac yn ceisio datblygu a darparu rhaglenni dysgu o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle.¹⁷ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nodwyd y canlynol:

“The CADCentre’s approach is to deliver learning and skills programmes through the medium of Welsh. This is particularly important if the intention is to develop a bilingual workforce equipped with work skills, terminology and nomenclature in the medium of Welsh which is often absent from the learner’s work experience. This (absence) can lead to a lack of confidence and a tendency to switch to English in new situations as well as a general lack of literacy in Welsh.”¹⁸

¹⁵ Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg – tystiolaeth ysgrifenedig – tudalen 4

¹⁶ Polisi iaith NatWest – tudalen 7

¹⁷ CADCentre UK – tystiolaeth ysgrifenedig – 1 Rhagfyr 2010 – tudalen 2

¹⁸ CADCentre UK – tystiolaeth ysgrifenedig – 1 Rhagfyr 2010 – tudalen 4

40. Clywodd y Grŵp fod y Cynllun, sy'n cael ei ariannu gan gynlluniau SkillBuild a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru, yn defnyddio dull seiliedig ar waith sy'n sicrhau gwelliant pwrpasol yn safonau'r Gymraeg ymhlith y gweithlu. Mae'r sgiliau ieithyddol a'r derminoleg Gymraeg newydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r fframwaith sy'n seiliedig ar sgiliau.¹⁹

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth ariannol digonol drwy gynlluniau SkillBuild a Phrentisiaethau i ariannu rhaglenni megis Cynllun Cymraeg yn y Gwaith gan CADCentre. Rydym yn argymhell hefyd fod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i rannu arferion gorau a sicrhawyd drwy Gynllun Cymraeg yn y Gwaith gyda darparwyr hyfforddiant galwedigaethol eraill.

41. Yn ystod ei ymweliad â CADCentre UK, clywodd y Grŵp gan bobl a oedd yn dysgu Cymraeg yn y gweithle nad oedd pobl ifanc yn ystyried yr iaith yn yr un modd ag yr oeddent yn ystyried Saesneg. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd o'r un farn, ac mae wedi clywed gan bobl ifanc mewn addysg nad yw'r Gymraeg yn cael ei gweld fel rhywbeth mor "cŵl" â'r Saesneg. Dywedodd fod angen 'normaleiddio' defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf a bod angen portreadu'r iaith yn y cyfryngau mewn modd cadarnhaol ac atyniadol.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil pellach ac yn coladu data ar agweddau at y Gymraeg a'r defnydd ohoni ymysg pobl ifanc sy'n dechrau gweithio er mwyn cyfrannu at ddatblygu polisi.

Dilyniant y Gymraeg o addysg i gyflogaeth

42. Er bod tystiolaeth ysgrifenedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydnabod bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn gam sylweddol ymlaen, pwysleisiodd y Bwrdd²⁰ yr angen am ragor o drafodaeth ac ymchwil i gysyniad continwmm iaith a fyddai'n cwmpasu pob cam addysgol.

43. Mewn tystiolaeth gan NatWest, dywedwyd bod y dilyniant o ran dysgu'r iaith ar ôl i ddisgybl adael yr ysgol yn bryder. Mae llawer sy'n gadael ysgol ac yn gallu siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi'n aml iawn

¹⁹ CADCentre UK – tystiolaeth ysgrifenedig – 1 Rhagfyr 2010 – tudalen 4

²⁰ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 14

gan gwmnïau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Saesneg, ac anaml iawn y cânt gyfle i ddefnyddio eu sgiliau ieithyddol yn yr amgylchedd gwaith. Wrth beidio â defnyddio'r iaith yn rheolaidd, gall arwain at lai a llai o sgiliau ieithyddol.

44. Mynegwyd barn debyg gan CADCentre Uk a ddywedodd:

“There is often a gap in the Welsh language experience as pupils leave Welsh speaking schools and areas to follow courses in Higher Education Institutions. This is then carried forward into the workplace because new skills learned in higher education are usually the ones used at work.”²¹

45. Un o brif nodweddion y dystiolaeth a gafodd y Grŵp sy'n berthnasol i ddatblygu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg oedd yr angen am bontio trefnus rhwng byd addysg a byd gwaith.

46. Yn ei ymchwiliad i ddysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith,²² canfu'r Grŵp fod pryderon wedi'u mynegi ynghylch lefelau presennol y dilyniant o un Cyfnod Allweddol ym myd addysg i'r un nesaf. Hefyd, clywodd y Grŵp fod problemau gyda chontinwmm iaith yn parhau ym myd gwaith hefyd.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid er mwyn sicrhau bod llwybr cydlynol ar gael i hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer disgyblion ysgol sy'n dymuno defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod darparwyr addysg, hyfforddiant a gweithleoedd yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn strategol er mwyn sicrhau bod pob cam yn y broses datblygu sgiliau yn cynnig dilyniant i unigolion a bod anghenion y gweithle yn cael eu bodloni.

Rôl Cynghorau Sgiliau Sector

47. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei fod wedi gweithio'n agos gyda 17 o'r 23 Cyngor Sgiliau Sector er mwyn datblygu Cynlluniau Iaith Gymraeg.²³ Cynhyrchwyd y cynlluniau gan ddefnyddio templed a

²¹ CADCentre UK – tystiolaeth ysgrifenedig – 1 Rhagfyr 2010 – tudalen 5

²² Y Pwyllgor Menter a Dysgu – Dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith – Medi 2010

²³ Mae Mesur y Gymraeg yn gwneud darpariaeth ynghylch datblygu 'safonau' sy'n ymwneud â'r Gymraeg a fydd yn disodli'n raddol y Cynlluniau iaith Gymraeg presennol a ddaeth i rym yn sgil Ddeddf 1993

luniwyd gan y Bwrdd, sy'n dangos ymrwymiad y Cynghorau Sgiliau Sector i ymchwilio i anghenion sgiliau Cymraeg ym mhob sector, ymateb iddynt a chynghori darparwyr dysgu i nodi ac archwilio anghenion hyfforddiant Cymru ddwyieithog. Caiff yr ymrwymiad hwn ei fonitro drwy gyfrwng adroddiadau blynyddol a gyflwynir i'r Bwrdd gan bob Cyngor Sgiliau Sector. Clywodd y Grŵp fod sawl pryder wedi codi o'r adroddiadau blynyddol a thrafodaethau ac nad oedd Cynghorau Sgiliau Sector yn cyflawni gofynion y camau hyn yn eu cynlluniau. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg²⁴ nodwyd y canlynol:

“O ran yr hyn a adroddir arno, ymddengys nad oes eglurder na dealltwriaeth lawn ymysg y Cynghorau rhwng; 1) mesur yr angen am sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg o fewn y sector, 2) mesur yr angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg a 3) chynnal unrhyw arolygon ymchwil eraill ymhlith cyflogwyr y sector drwy gyfrwng y Gymraeg...

“Mae'r cynghorau wedi mynd ati'n lled annibynnol i greu teclynnau i fesur yr anghenion hyn, [ond] nid oes ganddynt unrhyw fframwaith gyffredin. Wrth gwrs mae gwaith ymchwil diweddar Merfyn Morgan ar ran APADGOS wedi cynhyrchu canllaw arfer da yn y maes hwn a fydd o ddefnydd i'r Cynghorau...

“Mae'r cynghorau wedi bod drwy broses o ail-drwyddedu”n ddiweddar a olygai gwaith ymgynghori sylweddol gyda chyflogwyr. Nid yw'r mesurau hyn wedi cael blaenoriaeth felly.

“Mae cyflawni gofynion statudol eraill y Cynlluniau Iaith (h.y yr ymrwymadau yn ymwneud â'r elfennau gweinyddol a gweledol) wedi bod yn her i'r cynghorau sy'n cael eu harwain ar lefel Brydeinig, lle mae ymwybyddiaeth sefydliadol o natur ddwyieithog Cymru yn isel. Yr elfennau hyn sydd wedi cael blaenoriaeth felly yn ystod y cyfnod cychwynol. Yn ogystal â hyn, mae'r cynghorau yn adrodd i ni nad yw'r adnoddau staffio a chyllid a ddyrennir i Gymru yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni'r gofynion e.e un aelod o staff i weithio dros Gymru gyfan sydd gan nifer o gynghorau. Gallwn ategu drwy nodi mai

²⁴ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 7

ymysg y cyngorau hynny sydd â chyfradd uwch o staff yng Nghymru y mae'r gweithgarwch mwyaf ym maes asesu sgiliau."

48. Ar ôl clywed y dystiolaeth, roedd y Grŵp yn gofidio ynghylch a oedd canlyniadau'r cynlluniau hyn yn cael eu nodi a'u gwerthuso'n drylwyr.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yna gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau bod pob Cyngor Sgiliau Sector yn glynu wrth y canllawiau arfer da wrth ddatblygu safonau iaith Gymraeg a bod y gwaith o weithredu'r safonau hyn a chanlyniadau hynny yn cael eu monitro'n gadarn a'u gwerthuso'n rheolaidd.

Terminoleg

49. Yn ystod yr ymweliad â CADCentre UK, clywodd y Grŵp fod terminoleg mewn rhai proffesiynau wedi achosi cymhlethdodau i rai dysgwyr Cymraeg yn y gweithle, yn enwedig yn y diwydiant meddygol ac optegol. Fodd bynnag, teimlwyd hefyd fod terminoleg yn rhan arall o'r broses dysgu ac mai ychydig iawn o broblemau yn gyffredinol yr oedd hyn yn ei achosi o ran cyrhaeddiad iaith.

50. Roedd NatWest hefyd yn rhannu'r un farn gan ddweud bod yr iaith dechnegol a ddefnyddir mewn canghennau yn cael ei darparu i ddysgwyr Cymraeg drwy hyfforddiant cyd-destunol mewnol ac nid oedd yn gweld hyn fel testun pryder.

Y galw am wasanaethau dwyieithog

51. Canfu'r Grŵp fod galw cynyddol am wasanaethau Cymraeg mewn diwydiannau gwasanaethau cwsmeriaid, yn enwedig yn y diwydiannau ariannol. Mewn tystiolaeth gan NatWest, nodwyd bod ei ganolfan alwadau ddwyieithog ym Mharc Menai, Bangor wedi gweld cynnydd diweddar yn y galw. Yn ôl ffigurau diweddaraf, yn ystod chwarter olaf 2010, gwnaethpwyd oddeutu 9000 o alwadau yn y Gymraeg a 17,000 yn y Saesneg.

52. Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru dangoswyd bod 37 y cant o'r rheini a ymatebodd i'w arolwg 'Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg' wedi awgrymu y gallai

busnesau wneud gwelliannau drwy gynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith sydd ar gael. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig²⁵ nodwyd y canlynol:

“For fluent Welsh speakers, it appears businesses and organisations are not meeting the demand for Welsh speaking staff.

“Within the private sector, banks, building societies and financial institutions are rated as the best providers of Welsh language services.”

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r manteision y mae sefydliadau ariannol wedi'u gweld wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'w cwsmeriaid, ac edrych ar ffyrdd y gellir hyrwyddo'r arfer da hwn ymhlith sefydliadau gwasanaeth cwsmeriaid eraill yn y sector preifat.

53. Codwyd mater cystadleuaeth gan NatWest. Roedd yn teimlo mai'r farchnad ddylai sbarduno cwmnïau'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, yn hytrach na bod hyn wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth.

54. Er bod NatWest yn darparu tudalen 'gwybodaeth' Gymraeg ar ei wefan, clywodd y Grŵp nad oedd cynlluniau ar y gweill i ddatblygu gwasanaeth bancio ar-lein gwbl ddwyieithog ochr yn ochr â'r gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cwsmeriaid Saesneg eu hiaith. Clywodd y Grŵp hefyd nad oedd gan NatWest gynlluniau o gwbl i gynnal ymgyrchoedd hysbysebu ar y teledu ac yn y wasg drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r ddau ddatblygiad yn dibynnu ar fanteision masnachol ac economaidd.

55. Mae canlyniadau arolwg 'Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg' a gynhaliwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru hefyd yn dangos bod diffyg galw am wasanaethau ar-lein yn y Gymraeg. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nodwyd y canlynol:

“It is likely that there will be consumers who prefer to use online services considering 69 per cent of people in Wales personally access the internet, including 67 per cent of the fluent speakers surveyed and 76 per cent of non fluent Welsh speakers.

²⁵ Llais Defnyddwyr Cymru - tystiolaeth ysgrifenedig - 29 Medi 2010 - tudalen 3

“Simply assuming this part of a service is not needed without probing further into the reasons why could be a missed opportunity for service improvement.”

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda busnesau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y galw oddi wrth ddefnyddwyr am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein a dros y ffôn, yn cael ei nodi a'i werthuso'n dda, ac er mwyn gweld a oes unrhyw beth yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau hynny.

Hybu gwasanaethau Cymraeg

56. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru, nodwyd y canlynol:

“According to our research, 11 per cent of people feel that the private sector could improve its Welsh language service by promoting it more.”²⁶

57. Nodwyd hefyd:

“Welsh learners face issues of confidence and fluent speakers find it difficult to find someone else to speak Welsh. Intrinsically linked to both of these issues is the need for businesses to have an effective promotion strategy that is built on an understanding of the person using any Welsh language services they offer and those who may use them in future.”

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â busnesau a defnyddwyr i ddatblygu canllawiau ar ddulliau arloesol o hybu'r Gymraeg yn y gweithle ac mewn busnesau, ac yn ceisio adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr ynghylch ei effeithiolrwydd.

58. Mewn tystiolaeth a roddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, nodwyd, er bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod manteision economaidd yr iaith Gymraeg, ychydig iawn o gyfeirio a geir at hybu'r iaith yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

²⁶ Llais Defnyddwyr Cymru - tystiolaeth ysgrifenedig - 29 Medi 2010 - tudalen 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o hwb i ddefnyddio'r Gymraeg a'i manteision economaidd drwy gydol y gwaith o weithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

59. Er 2006, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cefnogi prosiectau penodol ac wedi cydweithio â sefydliadau er mwyn dod o hyd i ffyrdd effeithiol o hybu defnydd o'r iaith mewn gweithleoedd. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg²⁷ nodwyd:

“Mae cynllun Iaith Gwaith y Bwrdd yn helpu i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy ddefnyddio icon bach i ddynodi gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, a staff sy'n medru siarad Cymraeg. Mae'r Bwrdd yn dosbarthu tua 10,000 o fathodynau y flwyddyn i unigolion, ysgolion a chyflogwyr, ac hefyd yn defnyddio taith hyrwyddo blynyddol a i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.”

60. Mewn cyfweiliadau a gynhaliwyd gan Llais Defnyddwyr Cymru yn dilyn coladu data ar gyfer ei arolwg 'Gwasaniaithau: Defnyddwyr a'r iaith Gymraeg', canfuwyd gan rai ymatebwyr mai prin y defnyddid bathodyn dwyieithrwydd 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg.²⁸ Mewn rhai sefydliadau, canfuwyd bod clywed yr iaith yn cael ei siarad yn rhoi ysgogiad i ddefnyddwyr a staff ddechrau cysylltiad yn y Gymraeg yn hytrach na Saesneg. Mae Llais Defnyddwyr Cymru o'r farn bod angen datblygu arweiniad ar ddulliau hybu arloesol er mwyn cefnogi sefydliadau a busnesau.

61. Clywodd y Grŵp dystiolaeth anecdotaidd fod defnyddwyr sy'n siarad tipyn bach o Gymraeg yn teimlo'n aml fod y bathodyn 'Iaith Gwaith' yn gwneud iddynt deimlo'n swil gan nad ydynt yn hyderus yn eu gallu ieithyddol. Clywodd y Grŵp y gallai 'Cymreictod' mewn busnes gael ei ymgorffori mewn amgylchedd gwaith. Yn ogystal â bod staff yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith', gallai busnesau arddangos arwydd 'Iaith Gwaith' hefyd gan annog defnyddwyr, ymwelwyr a staff i ddefnyddio'r iaith, beth bynnag yw eu lefel cyrhaeddiad.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso llwyddiant bathodynau 'Iaith Gwaith' ac yn comisiynu ymchwil i ba mor ymarferol fyddai cyflwyno logo 'rhowch gynnig arni' mewn safleoedd busnesau sy'n gweithio wyneb yn wyneb â chwsmeriaid.

²⁷ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 12

²⁸ Llais Defnyddwyr Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 5

**Gellid ei ddefnyddio ochr yn ochr â logo cynllun ‘Iaith Gwaith’
Bwrdd yr Iaith Gymraeg i annog cwsmeriaid heb hyder i
ddefnyddio’r iaith.**

62. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg nodwyd:

“...mae’r Bwrdd wedi bod yn cefnogi prosiectau penodol ac wedi cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus er mwyn canfod dulliau effeithiol o gynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn gweithleoedd.”

63. Ym mis Ionawr 2009 lansiodd y Bwrdd ganllawiau ‘Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog’, sydd wedi’i seilio ar farn a phrofiadau prosiectau peilot ar gyfer gwahanol ddulliau o gynyddu defnydd o’r iaith megis cyfarfodydd mewnol, rhwydwaith o hyrwyddwyr iaith, cyfleoedd i sgwrsio’n anffurfiol, cynyddu Cymraeg ysgrifenedig, a ffurflenni a thempledi Cymraeg.

64. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan CADCentre UK, nodwyd y canlynol:

“Work-based documentation, the visual environment and IT based resources are mostly in English which makes working entirely through the medium of Welsh an impossibility and there is a tendency therefore to deal with these matters in English as the easiest and quickest option.”²⁹

65. Clywodd y Grŵp fod ‘Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Cymraeg’ gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn rhoi cyngor i sefydliadau am sut i hyrwyddo defnydd mewnol o’r Gymraeg ac mae’n cynnwys canllawiau ynghylch llunio datganiadau polisi, amcanion, ymwybyddiaeth iaith a datblygu sgiliau. Roedd y Grŵp o’r farn y gallai’r canllawiau a’r cymorth fynd beth o’r ffordd i greu diwylliant mewnol dwyieithog mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso’r hyn sy’n deillio o ganllawiau ‘Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog’ ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da er mwyn datblygu’r Gymraeg ymhellach yn y gweithleoedd hynny a gyda sefydliadau eraill.

²⁹ CADCentre UK - Tystiolaeth ysgrifenedig - 1 Rhagfyr 2010 - tudalen 5

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu rhwydwaith o fusnesau a chyrff sector cyhoeddus yn cael ei defnyddio i rannu arferion da wrth ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn y gweithle. Rydym yn argymhell hefyd bod gwaith y rhwydwaith hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd.

Arwyddion dwyieithog yn y gweithle ac mewn busnesau

66. Pwysleisiodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg pa mor bwysig yw arwyddion yn y gweithle/busnes. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan y Bwrdd, nodwyd y canlynol:

“O safbwynt cynllunio iaith, mae arwyddion dwyieithog amlwg yn bwysig am nifer o resymau, gan gynnwys:

“Proffil iaith – mae defnydd gweledol o'r Gymraeg ar arwyddion yn codi bri a statws yr iaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio gan fusnesau sydd yn uchel eu parch gyda brandiau adnabyddus. Mae hyn yn cael effaith gefnogol, sy'n cyfrannu at 'normaleiddio' defnydd o'r Gymraeg.

“Defnydd iaith – mae defnyddio Cymraeg ar arwyddion yn gwahodd ac yn annog pobl i ddefnyddio Cymraeg wrth ymwneud â busnes. Wrth bod arwyddion dwyieithog yn dod yn fwy cyffredin, weithiau gall diffyg arwyddion Cymraeg gael ei weld fel arwydd nad yw busnes yn croesawu defnyddio'r Gymraeg gan staff a chwsmeriaid.”³⁰

67. Clywodd y Grŵp fod arwyddion dwyieithog yn bwysig i fusnesau, yn enwedig y rheini mewn sefydliadau ariannol ac adwerthu gan eu bod yn rhoi cyfle iddynt ddangos eu bod yn deall gwerth yr iaith a'i phwysigrwydd i ddiwylliant Cymru.

68. Clywodd y Grŵp fod NatWest yn gosod arwyddion dwyieithog mewn manau cyhoeddus allanol a mewnol ac yn cynhyrchu amrywiaeth o lenyddiaeth ariannol yn y Gymraeg hefyd. Mae pamffledi a phosteri dwyieithog yn cyflwyno'r ddwy iaith yn gyfartal o ran

³⁰ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – dystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 16

fformat, maint, ansawdd a pha mor amlwg y cânt eu harddangos mewn canghennau ledled Cymru.³¹

69. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd gan CADCentre UK, nodwyd y canlynol:

“There is a general lack of Welsh language use in the built environment, in the media and business. This establishes English as the ‘normal’ means of communication and Welsh as a social language for use with acquaintances, friends and family.”³²

70. Clywodd y Grŵp fod gogwydd wedi bod tuag at ddefnydd mwy gweledol a chyffredinol o arwyddion dwyieithog, er nad oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymwybodol o ddata sy'n dangos cynnydd mewn arwyddion dwyieithog mewn busnesau.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i ddefnyddio arwyddion a llenyddiaeth ddwyieithog mewn gweithleoedd a busnesau gan gynnwys coladu data cywir ar ddefnyddio arwyddion a llenyddiaeth Gymraeg a hysbysu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg o dueddiadau ac enghreifftiau o arferion da.

Rôl awdurdodau lleol

71. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg³³ nodwyd bod 206 o gymwysterau a 60 o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, mae ysgolion uwchradd yn gyffredinol wedi gorfod ehangu eu darpariaeth alwedigaethol ac mae'r sector dwyieithog /cyfrwng Cymraeg wedi gorfod cynnig mwy o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nodwyd y canlynol:

“Nid oes...darlun clir ar gael ar hyn o bryd o'r graddau y mae awdurdodau lleol, ac ysgolion unigol, yn gallu bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i ddarparu lleiafswm o gyrsiau mewn cwricwla lleol drwy gyfrwng y Gymraeg, nac ychwaith o union natur profiadau ieithyddol y disgyblion sy'n

³¹ NatWest – Polisi Cymraeg - tudalen 4

³² CADCentre UK – tystiolaeth ysgrifenedig – 1 Rhagfyr 2010 – tudalen 7

³³ Bwrdd yr Iaith Gymraeg – tystiolaeth ysgrifenedig – 29 Medi 2010 – tudalen 1

dilyn y cyrsiau a gynigir mewn cydweithrediad yn y sector cyfrwng Cymraeg.”

72. Mewn tystiolaeth a roddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, nodwyd nad oedd diffyg ymrwymiad ar ran Awdurdodau Addysg Lleol i asesu galw. Nodwyd bod angen rhoi sylw i'r diffyg data cywir, yn enwedig yr anghysondebau o ran coladu data genedigaethau gan bob awdurdod. Clywodd y Grŵp, er mwyn i awdurdodau lleol ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ei bod yn allweddol cael mynediad at ddata cywir o ran genediagaethau.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid er mwyn sicrhau bod rheoliadau ym Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn cael eu gorfodi'n bendant fel bod y nifer leiaf o gyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn rhwydd.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn asesu canllawiau a gyhoeddir i Awdurdodau Addysg Lleol i ddatblygu Cynlluniau Addysg Gymraeg ar gyfer oedolion.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau addysg lleol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r data angenrheidiol, yn enwedig data ar enedigaethau, i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn mesur y galw am wasanaethau addysg yn y Gymraeg.

3. Casgliadau

73. Calonogwyd y Grŵp gan yr arferion da y mae rhai sefydliadau wedi'u gweithredu ac roedd ymrwymiad a chymhelliant yr unigolion a gyfarfu wrth gasglu tystiolaeth wedi creu argraff fawr ar y Grŵp. Clywodd y Grŵp fod llawer o bolisiau iaith Gymraeg a weithredwyd gan sefydliadau yn y sector preifat wedi'u llunio gan staff yn wirfoddol. Er bod hyn i'w ganmol, ni all yr iaith ddibynnu ar ewyllys da yn unig er mwyn ffynnu a bodloni amcanion strategaethau'r Llywodraeth.

74. Roedd y Grŵp yn falch o glywed bod agweddau sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat at y Gymraeg yn llawer mwy cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf, er bod tystiolaeth hefyd yn

dangos bod angen 'normaleiddio' yr iaith mewn ardaloedd lle siaredir Saesneg yn bennaf fel bod ganddi bresenoldeb integredig mewn amgylchedd gwaith ac amgylchedd cyhoeddus.

75. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu agweddau cadarnhaol at yr iaith er mwyn sicrhau bod strategaethau iaith yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau hefyd fod rhwydweithiau anffurfiol ar lefel gymunedol yn cael eu cynnal a bod cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, yn enwedig mewn addysg, hamdden, sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn y gweithle, yn cael eu gwella gan fod y rhain yn hanfodol i sicrhau bod gan bobl Cymru ymdeimlad o berchnogaeth dros yr iaith ac er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, beth bynnag yw eu lefel cyrhaeddiad.

76. Drwy gydol ei ymchwiliad, sylwodd y Grŵp fod nifer o gyrff gwahanol wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, Canolfannau Cymraeg i Oedolion a Chynghorau Sgiliau Sector oll amcanion i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a'i dysgu. Er bod gwaith yn cael ei gyflawni, daeth yn amlwg i'r Grŵp mai ychydig iawn o gydlynu a gwerthuso sy'n digwydd, a bod angen sicrhau canlyniadau mwy pendant. Rydym yn disgwyl i'r mater hwn gael sylw gan Gomisiynydd y Gymraeg a'i grŵp cynghori.

77. Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, roedd y tystion y cyfarfu'r Grŵp â hwy yn canmol yr arweiniad a'r gefnogaeth a roddir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn benodol, nodwyd sawl sefydliad gennym a ddywedodd fod eu perthynas gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn un ddefnyddiol ac effeithiol. Os ydym am weld yr arferion da presennol yn parhau ac yn datblygu, mae'n hanfodol bod profiad, arbenigedd ac ymrwymiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael eu defnyddio i'r eithaf gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad yn cael eu hystyried wrth weithredu strategaeth yr iaith Gymraeg 'Iaith fyw: Iaith byw'.

Atodiad A – tystion, tystiolaeth a gweithgareddau

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r tystion canlynol a roddodd dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i'r grŵp rapporteur ar ddwyieithrwydd. Mae modd gweld y dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn drwy glicio'r dolenni cysylltiedig.

Dyddiad

Tystiolaeth

29 Medi 2010

[Bwrdd yr Iaith Gymraeg](#)

Ifan Evans, Cyfarwyddwr, Sector Preifat a Busnes
Keith Davies, Uned Addysg

[Llais Defnyddwyr Cymru](#)

Rebecca Thomas, Uwch Eiriolwr Polisi

1 Rhagfyr 2010

[NatWest](#)

Mark Douglas, Cyfarwyddwr Rhanbarthol NatWest, Cymru

Andrew Lewis, Uwch Reolwr Banc

Jane Hughes, Rheolwr Tîm, Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Adwerthol Menai NatWest

Alaw Evans, Rheolwr Tîm, Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Adwerthol Menai NatWest

Emma Hughes, Rheolwr Cyfathrebu Rhanbarthol, RBS Communications

[CADCentre UK](#)

Ali Anwar, Rheolwr Gyfarwyddwr, CADCentre UK

Cyflogwyr a Dysgwyr sy'n rhan o'r hyfforddiant galwedigaethol a ddarperir gan CADCentre UK

**Tystiolaeth
ysgrifenedig a
roddwyd i'r grŵp**

[Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg](#)